

LIVING STREETS CYMRU

# CAM YMLAEN I GYMRU

## Cymru ble mae pawb yn gallu cerdded ac olwyno – beth all y Senedd ei wneud?



## LLE RYDYN NI

**Mae pobl Cymru wedi cael llond bol ar fwy a mwy o draffig, palmentydd wedi'u hesgeuluso, gyrwyr sy'n ymddwyn yn anystyriol, a strydoedd peryglus gyda'r nos. Rydym yn haeddu gwell.**

Fe wnaethom gynnal arolwg o'n cefnogwyr, ac mae'r neges yn glir – byddai strydoedd mwy diogel, glanach a gwell yn newid bywydau, gan:

- **Wella iechyd**
- **Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol**
- **Gwella diogelwch**

> **Mae parcio ar balmentydd yn broblem enfawr i ni, mae gan fy nhad broblemau symudedd a nam ar ei olwg, felly mae'n andwyol iawn i'w hyder a'i allu i symud o gwmpas.**

**61%** yw'r canran o bobl a ddywedodd bod y terfyn cyflymder 20mya wedi gwneud gwahaniaeth, ond mae llawer yn dweud bod angen ei orfodi'n well.




> **Fel cerddwr dall, rwy'n teimlo'n gyffredinol mai fi yw'r un sy'n gorfod bod yn ystyriol o yrwyr.**



**Mae pawb yn haeddu gallu cerdded ac olwyno'n ddiogel o amgylch eu cymdogaeth.**

Yn ôl ein cefnogwyr, llwybrau cerdded anniogel, ymddygiad gwael gan yrwyr, a pharcio ar balmentydd yw'r prif ffactorau sy'n atal pobl rhag cerdded ac olwyno yn eu hardal nhw.

Mae rhai atebion yn hawdd; bydd eraill yn cymryd mwy o amser. Fodd bynnag, gall llywodraeth nesaf Cymru wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n strydoedd.

**DYMA SUT:**

### 1 Cael gwared ar geir oddi ar ein palmentydd

**90%** yw'r canran o'n cefnogwyr sy'n pryderu am geir yn parcio ar balmentydd.

**Mae pobl anabl, rhieni â phramiau a phobl hŷn yn cael eu gorfodi i gerdded ar y ffyrdd bob dydd. Mae ceir sydd wedi'u parcio ar balmentydd hyd yn oed yn atal rhai pobl rhag gadael eu cartrefi.**



» **Cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol, fel yn yr Alban.**



### 2 Trwsio ein palmentydd

**Mae palmentydd anwastad sydd wedi cracio yn gwneud cerdded yn amhosibl i rai pobl. Mae pobl yn cwympo yn costio miliynau o bunnoedd i'r GIG. Gallwn osgoi hyn.**

» **Rhoi o leiaf yr un flaenoriaeth i balmentydd ag a wneir i ffyrdd o ran cynnal a chadw a graeanu.**



## 3 Gwneud yn siŵr bod ein plant yn ddiogel pan fyddant yn cerdded i'r ysgol

Mae gormod o draffig wrth gatiau ysgol, ceir ar balmentydd, a chroesfannau gwael yn rhwystro teuluoedd rhag cerdded i'r ysgol.



**49%** yw'r canran o blant sy'n cerdded i'r ysgol yng Nghymru

Mae cerdded neu olwyno i'r ysgol yn gwella hwyliau plant ac yn eu gwneud yn egnïol. Dyma'r dechrau gorau i'r diwrnod!



Rhoi cynllun Strydoedd Ysgol ar waith ledled Cymru.

Dylid lleihau terfynau cyflymder yn ein cymdogaethau, a sicrhau bod croesfannau yn gweithio ac wedi'u lleoli lle mae eu hangen.

## 4 Mynd i'r afael â gyrwyr a beicwyr anystyriol

Mae'r rhai sy'n yfed a gyrru, gyrwyr sy'n defnyddio eu ffonau, a'r rhai sy'n gyrru'n rhy gyflym yn berygl i bobl sy'n cerdded.

Mae pobl ar sgwteri trydan anghyfreithlon a'r rhai sy'n beicio ar y palmant yn ei gwneud hi'n frawychus i bobl gerdded ac olwyno.

Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno dedfrydau hirach am yrru'n beryglus a sicrhau bod gyrwyr gwael yn cael eu dirwyo.

Cyflwyno deddfwriaeth glir ar ficrosymudedd.



## 5 Gwella'r stryd fawr

Yng Nghymru, mae dwy ran o dair o bobl yn osgoi ymweld â chanol trefi oherwydd diffyg cyfleusterau fel toiledau cyhoeddus.

**41%** yw'r canran o bobl anabl sy'n ystyried bod strydoedd y DU yn anhygyrch.

Pan fydd yn hawdd cerdded ar y stryd fawr, mae busnesau'n elwa o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ymweliadau hirach, a mwy o arian yn cael ei wario.

Buddsoddwch yn rhaglen Trawsnewid Trefi a grymuswch awdurdodau lleol a chymunedau i lunio newid er mwyn adfywio eu heconomïau.

Integreiddio llwybrau cerdded a beicio gwell a diogel i mewn i gynllunio trafnidiaeth gyhoeddus.




## AC YN OLAF...

Mae pawb yn gerddwyr ar ryw adeg.

Felly, mae gwario 10 y cant o gyllideb trafnidiaeth ar gerdded ac olwyno yn benderfyniad hawdd.

Drwy fuddsoddi mewn strydoedd gwell i bawb, gallwn gyflawni arbedion hirdymor drwy leihau anafiadau, a gwella iechyd a llesiant.



## CERDDED GYDA NI

livingstreets.org.uk/etholiadau

Mae Living Streets (Cymdeithas Cerddwyr) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Lloegr a Chymru) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Lloegr a Chymru), Rhif Cofrestru Cwmni 5368409.